

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

30 Hydref 2015

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Cynnwys

1	Rhagair	1
2	Cynllun Strategol	3
3	Cyd-destun yr amcangyfrif	4
4	Amcangyfrif ariannol a sylwadau	7
5	Effaith ar y gronfa wrth gefn	13
6	Llywodraethiant a rheolaeth fewnol	14

1 Rhagair

- 1.1 Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Gynllun Strategol 2015-17 mewn cyfnod o newidiadau mawr ym mywyd cyhoeddus Cymru.
- 1.2 Gydag Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2015 ac Etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016, byddwn yn gweld cyfnod o newid llywodraethau, a rhaglenni deddfwriaethol newydd yn cael eu datblygu a'u creu. Wrth i lywodraeth leol a gwasanaethau eraill gael eu had-drefnu, bydd siâp yr holl sector cyhoeddus yng Nghymru'n newid yn sylfaenol.
- 1.3 Mae amcanion y cynllun sydd wedi ei nodi yn adran 2, wedi'u llunio gyda'r nod o sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r trafodaethau cyhoeddus a'r penderfyniadau polisi a ddaw yn sgil y newidiadau.
- 1.4 Bydd newid sylweddol yn y ffordd y caiff gwasanaethau Cymraeg eu darparu wrth i safonau'r Gymraeg gael eu gosod ar sefydliadau. Bydd y gyfundrefn newydd yn gosod dyletswyddau a fydd yn arwain at greu hawliau i dderbyn gwasanaethau Cymraeg.
- 1.5 Bydd y Comisiynydd yn gweithredu trefn reoleiddio gadarn ar y dyletswyddau newydd. Sail greiddiol unrhyw waith rheoleiddio yw gwarchod a sicrhau parch a thegwch i ddinasyddion. Bydd y sefydliad yn cefnogi defnyddwyr y Gymraeg ac yn gweithio â chymunedau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u profiadau, eu hanghenion a'u dyheadau. Caiff y dystiolaeth a gesglir ei defnyddio er mwyn cyfrannu at sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Y bwriad drwy wneud hynny yw rhoi sicrwydd a hyder i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.
- 1.6 Disgwylir i sefydliadau gydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol a osodir arnynt. Lle nad yw hynny'n digwydd, bydd y Comisiynydd yn cymryd camau priodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau a, thrwy hynny, yn sicrhau bod hawliau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu gwarchod. Er mwyn cyflawni hyn, caiff amrywiaeth o ddulliau rheoleiddio eu defnyddio.
- 1.7 Bydd rhaglen gyfathrebu â'r cyhoedd yn cael ei llunio, y bwriad yw manteisio ar bob cyfle i drafod ag unigolion a gwahanol grwpiau a mudiadau ar lawr gwlad. Cynhelir cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith yng Nghymru yn 2017, a bydd y digwyddiad yn gyfle i ni rannu profiadau am sut mae modd sicrhau hawliau iaith yn ogystal â bod yn gyfle i arddangos y gorau o'r Gymru ddwyieithog i gynulleidfa ryngwladol.
- 1.8 Y nod yw Cymru lle gall unrhyw un fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. I gyrraedd y nod, plethir y gwaith o weithredu a rheoleiddio'r gyfraith â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Golyga hyn gydweithio â mudiadau trydydd sector ac elusennau, busnesau megis siopau a banciau a rhai ym meysydd twristiaeth a threftadaeth, y byd chwaraeon a hamdden, a'r cyrff sy'n cynrychioli'r holl sectorau hyn, i'w cefnogi i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.


- 1.9 Drwy weithredu amcanion a blaenoriaethau'r Cynllun Strategol, yr amcan yw sicrhau bod yr holl newidiadau i dirlun bywyd cyhoeddus Cymru'n arwain at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd am weld Cymru lle mae'r Gymraeg yn rhan ddi-gwestiwn a naturiol o fywyd pob dydd, yn y cymunedau Cymraeg ac yn y cymunedau dwyieithog ac amlieithog, ym mhob cwr o'r wlad.
- 1.10 Mae'r amcangyfrif hwn yn adlewyrchu'r adnoddau y bydd eu hangen ar y Comisiynydd i weithredu'r swyddogaethau ychwanegol hyn sy'n ganolog i waith y sefydliad.

2 Cynllun Strategol

- 2.1 Ar 1 Ebrill 2015 cyhoeddodd y Comisiynydd Gynllun Strategol ar gyfer 2015-2017. Mae'r Cynllun Strategol hwn yn adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Gynllun Strategol 2013-15 ac yn egluro sut yn union y bwriedir gweithio tuag at gyflawni nod cyffredinol Comisiynydd y Gymraeg dros y ddwy flynedd hyd at 31 Mawrth 2017.
- 2.2 Mae amcanion y Cynllun Strategol yn cyfateb i'r swyddogaethau y mae angen i'r Comisiynydd eu cyflawni yn unol â'r Mesur, ac mae blaenoriaethau strategol wedi eu pennu ar gyfer pob amcan. Rhestrir amcanion y Cynllun Strategol fel a ganlyn:
- Amcan 1: Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi
 - Amcan 2: Sicrhau cyfiawnder i ddefnyddwyr y Gymraeg
 - Amcan 3: Gosod dyletswyddau statudol a'u rheoleiddio
 - Amcan 4: Annog, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar sail wirfoddol
 - Amcan 5: Gweithredu a chyfathrebu'n briodol ac effeithiol
- 2.3 Caiff y Cynllun Strategol ei roi ar waith drwy gynlluniau gweithredol blynyddol a fydd yn cynnwys prosiectau penodol, amserlenni a thargedau er mwyn mesur cyflawniad. Bydd y cynlluniau hyn yn ystyried anghenion adnoddau a chyllid ar gyfer pob prosiect.

3 Cyd-destun yr amcangyfrif

- 3.1 Y flwyddyn hon fydd y pumed flwyddyn ers i Gomisiynydd y Gymraeg ddod i fodolaeth ar 1 Ebrill 2012. Dyrannwyd cyllideb o £4,100,000 ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf. Derbyniwyd toriad o £410,000 (10%) yn 2014-15 a thoriad pellach o £300,000 (8%) yng nghyllideb 2015-16. Esboniwyd bod y toriad hwn yn rhan o doriadau ehangach yng nghyllideb yr adran addysg a sgiliau a bod yn ofynnol i'r sefydliad dderbyn toriad.
- 3.2 I'w chymharu â blwyddyn gyntaf bodolaeth y Comisiynydd, erbyn blwyddyn ariannol 2015-16 mae'r sefydliad wedi derbyn toriadau o tua 24% mewn termau real i'w chymharu â'r gyllideb wreiddiol o £4,100,000. Mae toriadau o'r fath, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch sefyllfa gyllidol blynyddoedd i ddod, yn gwneud hi'n anodd cynllunio am y tymor canolig a gweithredu swyddogaethau newydd yn effeithiol.



- 3.3 Dengys y paragraffau blaenorol broffil ariannol Comisiynydd y Gymraeg ers ei sefydlu ar 01/04/2012 hyd at 31/03/2016. Mae'n bwysig gwneud rhai arsylwadau mewn cysylltiad â'r patrwm gwariant hwn ochr yn ochr â darparu sylwadau ar ragolwg o'r adnoddau cyllidol ar sail patrwm gwaith tebygol y Comisiynydd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2016-17 wedi hynny hyd at 31/03/2019. Y gobaith yw bydd y sylwadau'n cynorthwyo'r broses o ddod i farn resymol ar y gyllideb briodol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg er mwyn ei galluogi i gyflawni ei dyletswyddau, swyddogaethau ac arfer pwerau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Trawsnewid o Gynlluniau Iaith Gymraeg i gyfundrefn safonau

- 3.4 Yn ystod y cyfnod yma o drawsnewid bydd yr adnoddau gofynnol ar gyfer cynnal Cynlluniau iaith a chyflwyno a gweithredu'r drefn safonau'n esblygu ac yn newid dros amser. Yn ogystal bydd y gofynion yn cynyddu wrth i ragor o sefydliadau ddod o fewn gafael y drefn safonau.

- 3.5 Ar 20/10/2015 mewn dadl yn y Senedd ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2014-15 pasiwyd, yn unfrydol, welliant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn “nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo yn ei strategaeth iaith 'iaith fyw: iaith byw' i wneud 'safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gwmnïau'r sector preifat sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau'.”
- 3.6 Ym mis Mawrth 2015 y daeth rheoliadau cyntaf safonau'r Gymraeg i rym mewn perthynas â 26 sefydliad: 22 awdurdod lleol, 3 parc cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Hyd nes y bydd y drefn safonau'n llawn weithredol mae'n ddisgwyliedig bod y Comisiynydd yn sicrhau parhad gweithrediad Cynlluniau Iaith Gymraeg. Yn ymarferol golyga hyn cadw gorolwg dros weithrediad tua 550 o gynlluniau iaith ac ymchwilio i rhwng 250 a 300 o gwynion yn flynyddol. Ers 01/04/2012 cytunwyd 64 cynllun iaith newydd ac mae'r drefn o ymchwilio i gwynion a chynnal lefelau cydymffurfiaeth gyda chynlluniau iaith Gymraeg yn parhau. Er enghraifft roedd 6 ymchwiliad statudol ar agor rhwng 01/04/2015 a 31/10/2015.
- 3.7 Mae'r broses o gyflwyno safonau yn gofyn i'r Comisiynydd gyflawni cyfres o gamau statudol:
- 3.7.1 Yn y man cyntaf, ymgwymerir ag ymchwiliadau safonau i bennu pa safonau bydd yn ddarostyngedig ar sefydliadau. Hyd hyn cynhaliwyd ymchwiliadau safonau i 209 o sefydliadau.
- 3.7.2 Yn dilyn cymeradwyo'r rheoliadau safonau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyn i'r hysbysiad cydymffurfio terfynol gael ei gyflwyno i sefydliad mae'r Comisiynydd yn cynnal ymgynghoriad statudol gyda'r sefydliad. Mae rhagdybio anghenion adnoddau ar gyfer rhai agweddau o'r gweithrediad yn ystod y cyfnod hwn yn anodd. Er mwyn cynnal prosesau ymchwiliadau safonau a chyflwyno hysbysiadau cydymffurfio terfynol yn gyfochrog ar gyfer cannoedd o sefydliadau yn unol â'r Mesur, bydd angen adnoddau swyddogion ychwanegol am gyfnod penodol. Wrth gynllunio adnoddau ystyrir bod angen dau swyddog ychwanegol am gyfnod o 2 flynedd rhwng 01/04/2016 a 31/03/2018.
- 3.7.3 Yn olaf mae gofynion cysylltiedig â sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau yn dod yn weithredol am y tro cyntaf o ddiwedd Mawrth 2016 ac yn gynyddol wedi hynny. Mae'r drefn osodedig wedi ei phennu yn Rhan 5, Mesur y Gymraeg. Mae'r gofynion mewn perthynas ag ymchwilio'n benodol a manwl. Er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol o'r pŵerau gorfodi a sicrhau cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg bydd angen adnoddau ychwanegol wrth i niferoedd y sefydliadau sydd yn gweithredu dan y drefn safonau gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Bydd angen tri swyddog ychwanegol i gynnal gwaith ymchwilio a gorfodi yn unol â Rhannau 4 a 5 Mesur y Gymraeg.

Casgliad

- 3.8 Nid yw patrwm cyllido Comisiynydd y Gymraeg wedi adlewyrchu gofynion deddfwriaethol Mesur y Gymraeg. Nid yw'r adnoddau presennol yn ddigon i ehangu gafael y Mesur dros wahanol sectorau yn fuan nac at orfodi'n llwyddiannus unrhyw gamau er mwyn sicrhau gwell triniaeth a rhagor o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg a rhoi arweiniad i osgoi methiannau.
- 3.9 Mae gweithredu'r drefn safonau hefyd yn sugno adnoddau oddi wrth weithredu agweddau pwysig eraill o genhadaeth Comisiynydd y Gymraeg mewn modd anghymesur. Ni fydd hi'n bosibl gwneud y gwaith i gyd ar y raddfa ddisgwyliedig nac i weithredu'n effeithiol heb yr adnoddau i'w gyflawni.

4 Amcangyfrif ariannol a sylwadau

- 4.1 Cyflwynir isod fanylion o wariant Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2016-2017 hyd at 2018-19. Mae'r amcangyfrif hwn yn dangos cynnydd yn y gwariant dros y 3 blynedd nesaf i'w chymharu â 2015-16. Er mwyn ariannu'r gweithgareddau sydd yn hanfodol bwysig i strategaeth, blaenoriaethau a gweithrediad effeithiol y sefydliad gwneir cais am gyllideb ychwanegol ar gyfer y cyfnod hwn. Hyd yn oed gyda chynnydd yn y gyllideb disgwylir gorwariant rhesymol, bydd angen ariannu hyn o'r gronfa wrth gefn (gweler adran 5).

	Gwariant 2014-15 £000	Cyllideb 2015-16 £000	Rhagolwg 2015-16 £000	2016-17 £000	2017-18 £000	Amcangyfrif 2018-19 £000
Gwariant						
Cyflogau	2,146	2,226	2,250	2,658	2,733	2,619
<i>Costau swyddfeydd</i>	319	301	295	233	233	233
<i>Technoleg gwybodaeth</i>	137	142	145	135	135	135
<i>Costau gwasanaethau a gweinyddu</i>	158	99	93	93	93	93
<i>Recriwtio, dysgu a datblygu</i>	91	65	64	54	54	54
<i>Costau proffesiynol</i>	152	176	177	154	154	154
<i>Teithio a chynhaliadau</i>	99	102	102	93	93	93
Costau Craidd	956	886	876	762	762	762
Costau Cyfalaf a Dibrisiant	77	61	61	50	40	40
Costau Rhaglenni a Phrosiectau	559	217	226	273	225	200
CYFANSWM GWARIANT	3,738	3,390	3,413	3,744	3,760	3,621
Ariannu gan Weinidogion Cymru	(3,690)	(3,390)	(3,390)	(3,750)	(3,750)	(3,600)
GORWARIANT / (TANWARIANT)	48	0	23	(6)	10	21
Cyfartaledd nifer swyddogion (cywerth y pen)	45	47	47	53	53	49

- 4.2 Ystyrir effaith y ffactorau mwyaf dylanwadol ar wariant y Comisiynydd isod:

Cyflogau

- 4.3 Pan sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2012 etifeddwyd strwythur a gytunwyd arno rhwng swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Wrth i'r sefydliad ddatblygu ac wrth i bwerau statudol newydd ddod i rym, credai'r Comisiynydd bod angen adolygu'r strwythur gwreiddiol, gan greu strwythur mwy addas ar gyfer ymateb i swyddogaethau'r Comisiynydd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 4.4 Ym mis Chwefror 2014 agorodd y Comisiynydd gynllun ymadael gwirfoddol. Daethpwyd i gytundeb gyda 9 swyddog ac ymadawodd y swyddogion yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Gorffennaf 2014. Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2014-15 cyhoeddodd y Comisiynydd strwythur newydd i'r sefydliad gyda 47 o swyddi. Yn ystod 2014-15 penodwyd swyddogion i'r swyddi newydd gyda'r penodiadau olaf mewn lle erbyn Ionawr 2015.
- 4.5 Creu sefydliad cynladwy oedd un bwriad o'r ail-strwythuro. Cyfanswm cost y cynllun dros ddwy flynedd oedd £517,000. Bydd cost y cynllun wedi ei adennill o fewn 2 flynedd i'w gymharu â phe na fyddai'r strwythur newydd wedi ei roi mewn lle.
- 4.6 Mae'r rhagair ac adran 3 yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Er mwyn gweithredu'r rhain yn effeithiol ac yn amserol bydd angen sicrhau bod yr adnoddau priodol mewn lle wrth gyflogi'r swyddogion canlynol:
- 2 swyddog parhaol ychwanegol i ymchwilio i a gorfodi cydymffurfiaeth â'r safonau
 - 2 swyddog am gyfnod penodol o 2 blynedd i gynnal y gwaith o gynnal ymchwiliadau safonau
 - 1 swyddog am gyfnod penodol o 3 blynedd i gefnogi heriau yn erbyn dyletswyddau
 - 2 swyddog am gyfnod penodol o 2 flynedd i gynnal Ymholiad
- 4.7 Mae ffactorau eraill wedi cael, ac yn parhau, i gael effaith sylweddol ar gostau cyflogaeth y sefydliad, nodir y rhain isod:
- 4.8 Mae swyddogion y Comisiynydd yn cael eu talu yn unol ag amodau a thelerau Llywodraeth Cymru. Cytunodd Llywodraeth Cymru setliad cyflogaeth gyda'r Undebau yn 2015. Dyma'r cynnydd cyntaf mewn cyflog ers 2 flynedd ac roedd y setliad hwn am gyfnod o ddwy flynedd, hyd ddiwedd Mawrth 2017. Roedd y setliad cyflog yn cynyddu pwynt uchaf y graddfeydd cyflog 2.5%, yn dileu'r pwynt isaf ar y graddfeydd ac yn rhannu'r graddfeydd rhyngddynt yn fwy cyfartal. Effaith y setliad cyflog yw cynnydd o £46,000 i'w gymharu â chostau cyflogaeth y flwyddyn ariannol 2015-16.
- 4.9 Nodir bydd 26 swyddog yn derbyn cynnydd ar gyfartaledd o 6.0% yn 2016-17 wrth iddynt symud o un pwynt tâl i'r pwynt nesaf. Effaith hyn yw £19,000 ar ben y setliad cyflog.
- 4.10 Ar 01/04/2016 bydd prif gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil yn 'contractio mewn' i'r gyfundrefn yswiriant gwladol. Bydd hyn yn cael yr effaith o ychwanegu £41,000 i gyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr yn flynyddol.

Chwyddiant

4.11 Nid oes unrhyw gynnydd am chwyddiant wedi'i gynnwys. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd mesur CPI o chwyddiant yn 1.1% yn 2016, 1.6% yn 2017 a 1.8% yn 2018 (4.6% cronos dros 3 mlynedd). Er ei bod hi'n anochel bydd chwyddiant yn cael effaith ar gostau'r Comisiynydd, bydd angen gwneud arbedion er mwyn rheoli costau o fewn y gyllideb.

Swyddfeydd

4.12 Etifeddwyd ystâd swyddfeydd a oedd yn lletya cyn-sefydliad llawer mwy o gymharu â'r nifer presennol. Yn dilyn yr ailstrwythuro bu cyfnod o ad-drefnu gofynion swyddfeydd er mwyn darparu gofod addas yn cyfateb â lleoliadau swyddogion, a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol.

4.13 Bu newid i broffil daearyddol gweithlu'r sefydliad; y newid mwyaf trawiadol oedd cynnydd yn nifer y swyddogion yn swyddfeydd Caerfyrddin a Chaernarfon a lleihad nifer y swyddogion yng Nghaerdydd. Oherwydd hyn roedd angen ad-drefnu'r swyddfeydd er mwyn creu gofod ac adnoddau addas.

4.14 Ildiwyd les ar ran o swyddfa Caerdydd yn gynnar gan arbed costau rhent a gwasanaethau. Hefyd ad-drefnwyd y swyddfa, oherwydd lleihad yn yr angen am ofod. Roedd cost i gyflawni'r newid, ond trwy ryddhau 40% o'r gofod crëwyd opsiynau i ildio neu osod. Mae'r Comisiynydd wedi cyd weithio gyda swyddogion yn adran ystadau Llywodraeth Cymru i is-osod un llawr er mwyn lleihau costau tan derfyn y les £64,000 yn flynyddol o 2016-17 ymlaen.

Technoleg Gwybodaeth

4.15 Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae'r Comisiynydd wedi buddsoddi yn ei systemau TG er mwyn galluogi ffyrdd effeithlon o weithio. Mae'r pedair swyddfa wedi eu cysylltu drwy'r PSBA, rhwydwaith band eang Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig cyswllt cyflym cyson i bob swyddfa ac yn galluogi'r swyddogion i weithio'n hyblyg. Buddsoddwyd mewn technoleg fideo-gynadledda ac mae naw stiwdio yn bodoli ar draws y pedair swyddfa; mae hyn yn arbed costau teithio, amser swyddogion, ac yn fodd cynaliadwy o gyflawni busnes y sefydliad.

4.16 Datblygwyd is-wefan ar gyfer y sectorau anstatudol, sydd yn cynorthwyo rhanddeiliaid yn y sectorau hyn i ddatblygu eu gwasanaethau, yn yr iaith Gymraeg, ar sail wirfoddol.

4.17 Rhagwelir datblygiadau parhaus i'r system Rheoli Gwybodaeth SGwNI er mwyn ymateb i ofynion cynyddol, wrth i'r Comisiynydd weithredu ei swyddogaethau yn unol â'r Mesur.

4.18 Mae'r rhan helaeth o'r gwariant ar dechnoleg gwybodaeth yn ymrwymadau cytundebol ar gyfer cynnal a chadw systemau a meddalwedd a gwasanaethau cefnogi ar gyfer y systemau craidd. Mae'r gyllideb ar gyfer datblygiadau yn fach ac wedi ei thorri 20% i £20,000 ar gyfer 2016-17.

Gwasanaethau

4.19 Mae'r Comisiynydd yn anelu at weithredu effeithlon o fewn canllawiau a gweithdrefnau pwrcasu gan ddilyn arfer da fel y rhai a hyrwyddir gan Gwerth Cymru. Mae'r egwyddor o gael gwerth am arian, ar sail holl gostau gydol oes ac ansawdd, yn cael ei ddilyn bob amser. Mae'r gweithdrefnau yn cynnwys gofyn am ddyfynbris gan nifer o gyflenwyr neu gwblhau proses dendro gystadleuol lawn. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys £6,000 o arbedion drwy gaffael yn ddarbodus.

Recriwtio, hyfforddiant a datblygu

4.20 Mae'r gwariant ar recriwtio wedi gostwng yn sylweddol ac mae'r gyllideb wedi ei haneru i £3,000 yn dilyn penderfyniad i hysbysebu swyddi ar-lein yn hytrach nac yn y wasg brint.

4.21 Mae gweddi y gyllideb ar gyfer cyrsiau cymhwyster, hyfforddiant, aelodaeth o gyrrff proffesiynol, seminarau a chynadleddau. Buddsoddwyd yn 2014-15, wedi'r broses o ail-strwythuro, er mwyn unioni sgiliau a chymwyseddau swyddogion gyda'u swyddogaethau. Gyda'r sefydliad yn cychwyn ar y cyfnod trosiannol wrth symud o system o gynlluniau iaith i safonau bydd gofynion datblygu personol yn parhau. Er hyn, mae cyllideb 2016-17 o £49,500 yn arbediad o £32,500 i'w chymharu â gwariant 2014-15. Er mwyn cyflawni hyn o fewn cyllideb llawer llai byddwn yn defnyddio dulliau rhatach ac arloesol i gyflawni amcanion hyfforddi a datblygu swyddogion.

4.22 Bydd toriad i'r gyllideb ar gyfer aelodaeth broffesiynol a sefydliadol, gan gyfyngu aelodaeth i'r rhai angenrheidiol yn unig.

Cyfreithiol a phroffesiynol

4.23 Mae'r costau hyn yn cynnwys costau fel gwariant ar gyngor cyfreithiol, archwilwyr allanol a mewnlol a chyfieithu. O ran gwariant ar gyngor cyfreithiol a chyfieithu gall natur y gofynion amrywio yn sylweddol ac nid oes modd rhagdybio'n llawn yr amgylchiadau all godi lle bo angen cyngor, yn arbennig lle fo pwerau newydd yn cael eu harfer. Mae'r sefydliad yn gwneud defnydd helaeth o gof cyfieithu er mwyn gwneud arbedion a dylai fframwaith cyfieithu newydd, bydd yn weithredol o 01/01/2016, gynnig arbedion. Er y gallai sefydliadau herio'r hysbysiadau cydymffurfio, cynigiwyd arbediad o £22,000 ar gostau cyfreithiol gan gadw cronfa wrth gefn ar gyfer talu am unrhyw achosion a allai godi.

Treuliau Swyddogion

4.24 Gofynnir i swyddogion a'u rheolwyr llinell ystyried yr angen i deithio ac i ystyried dulliau amgen o gyfathrebu a chysylltu. Serch hynny rhaid nodi bod swyddogaethau rheoleiddio a gwaith hybu a hwyluso'r Comisiynydd yn arwain yn anorfod at ymweliadau arolygu neu adborth perfformiad, at ddigwyddiadau cynnig arweiniad, cyngor neu wybodaeth ac ati. Swyddogion yw prif adnodd y sefydliad ac felly fe fydd gwariant ar deithio yn parhau i fod yn elfen hanfodol o gostau cyflawni swyddogaethau craidd y Comisiynydd. Er hyn mae'r arbedion o £9,000 (9%) wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrif.

Cyfalaf a dibrisiant

- 4.25 Amcangyfrif y gwariant ar gyfalaf a dibrisiant yw £50,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17. Mae hyn yn lleihau i £40,000 y flwyddyn ar gyfer y blynyddoedd canlynol.
- 4.26 Mae hyn ar gyfer parhau i fuddsoddi lle bo'n angenrheidiol ar dechnoleg gwybodaeth drwy uwchraddio offer TG a gwneud newidiadau i'r swyddfeydd er mwyn darparu amgylchedd ac adnoddau addas ar gyfer swyddogion y Comisiynydd. Mae'r rhan helaeth o'r gost yma oherwydd dibrisiant asedau sydd wedi ei phennu gan fuddsoddi ar gyfalaf yn y gorffennol.

Incwm

- 4.27 Nid oes disgwyl i'r Comisiynydd dderbyn incwm sylweddol o unrhyw ffynhonnell arall heblaw gan Weinidogion Cymru.
- 4.28 Derbynnir ychydig o log banc ar yr arian a dderbynnir gan Weinidogion Cymru, wrth ei fuddsoddi mewn cyfrifon cadw.

Rhaglenni a Phrosiectau

4.29 Gyda phwysau cyllidebol bydd angen pwysu a mesur blaenoriaethau wrth i ystod a nifer y rhaglenni gael eu cyfyngu.

4.30 Amcangyfrif gwariant ar gyfer 2016-17 yw £273,000. Rhai o'r prif brosiectau sydd wedi eu blaenoriaethu yw:

Amcan 1

- Ymchwil er mwyn dylanwadu ar bolisi
- Adroddiad 5 mlynedd
- Ymholiad i faes penodol

Amcan 2

- Datblygu a gwella dealltwriaeth ynglŷn â hawliau defnyddwyr y Gymraeg
- Ymchwilio i amheuron o fethiant i gydymffurfio â dyletswyddau
- Cychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol lle bo'n briodol
- Delio â phryderon am wasanaethau Cymraeg gan sefydliadau anstatudol

Amcan 3

- Addysgu sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau a chynnal ymchwiliadau
- Delio efo heriau ac apeliadau
- Profi, dadansoddi a deall profiadau defnyddwyr
- Arolygon thematig

Amcan 4

- Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau anstatudol
- Geiriadura a Therminoleg

Amcan 5

- Presenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol a chysylltu â'r cyhoedd
- Gweithredu yn briodol ac effeithlon
(nodir bod rhan helaeth o'r gwariant i wireddu amcan 5 yn rhan o gostau craidd y Comisiynydd)

5 Effaith ar y gronfa wrth gefn

- 5.1 Mae cyfrifon blynyddol 2014-15 yn datgan bod £563,000 yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31/03/2015.
- 5.2 Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys symiau sy'n dderbynadwy, yn ddyledus, rhagdaliadau a chroniadau. Er mwyn deall gwir werth y gronfa wrth gefn mae angen ystyried effaith y trafodion hyn:

	£000	Casglu dyledion a thalu credydwy £000	Dibrisiant a gwariant rhagdaliadau £000	Balans yn weddill £000
Asedau sefydlog	166		(166)	-
Symiau derbynadwy	1	(1)		-
Rhagdaliadau	135		(135)	-
Arian parod	1,043	(781)		262
Taliadau Masnachol	(381)	381		-
Croniadau a darpariaethau	(401)	401		-
Cronfa wrth gefn	(563)	-	301	(262)

- 5.3 Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2014-15 gwir werth y gronfa wrth gefn oedd £262,000.
- 5.4 Mae'r tabl isod yn amcangyfrif yr effaith ar y gronfa wrth gefn o'r gyllideb ar gyfer y blynyddoedd 2015-16 hyd at 2018-19.

	2015-16 £000	2016-17 £000	2017-18 £000	2018-19 £000
Ar ddechrau'r cyfnod	262	239	245	235
Tanwariant / (Gorwariant) yn y cyfnod	(23)	6	(10)	(21)
Ar ddiwedd y cyfnod	239	245	235	214

- 5.5 Ystyrir bod angen cadw lleiafswm o 5% o'r gyllideb flynyddol wrth gefn ar gyfer unrhyw wariant ni ellid ei ragweld, tua £170,000. Hefyd caiff y Comisiynydd ddarparu cymorth i unigolion mewn achosion cyfreithiol. Wrth i'r sefydliad symud i gyfnod lle bydd hysbysiadau cydymffurfio yn cael eu gosod ar sefydliadau, gallai'r sefydliadau hyn herio'r penderfyniadau'r Comisiynydd. Byddai'n ddarbodus cael £100,000 wrth gefn i amddiffyn achosion o'r fath.
- 5.6 Er bod cynnydd anochel i gostau cyflogau, ac arbedion i gostau craidd a chostau rhaglenni wedi eu cynllunio ar gyfer y cyfnod, mae'r amcangyfrif yn dangos ei bod hi'n anorod defnyddio'r gronfa wrth gefn i ariannu'r gorwariant. Tra byddai'n ddymunol cadw cronfa wrth gefn o tua £270,000, mae gorwariant dros y blynyddoedd 2015-19 yn golygu rhagolwg o'r gronfa wrth gefn o £214,000 erbyn diwedd 2018-19.

6 Llywodraethiant a rheolaeth fewnol

- 6.1 Y Tîm Rheoli sy'n rheoli holl swyddogaethau a gweithgareddau'r sefydliad; mae'n gyfrifol am gytuno, arwain a chyflawni gweledigaeth strategol y Comisiynydd a gweithredu polisiau a gwasanaethau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.
- 6.2 Daeth cyfnod yr aelodau a benodwyd i Banel Cyngori'r Comisiynydd ym mis Ebrill 2012 i ben ar 31 Mawrth 2015. Parhaodd Bethan Jones Parry a Carl Cooper yn aelodau o'r Panel am gyfnod hyd at 31 Awst 2017. Ym mis Ebrill 2015 penodwyd tri aelod newydd am gyfnod o dair blynedd, sef Nick Speed, Dr Heledd Iago a Meinir Davies. Derbyniodd Bethan Jones Parry wahoddiad Prif Weinidog Cymru i gadeirio'r Panel Cyngori. Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cyngori ynghylch unrhyw fater.
- 6.3 Y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd annibynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a rheoli risg. . Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yw Wyn Penri Jones (Cadeirydd), Rheon Tomos, Nigel Annett a Dr Ian Rees, a mynychir y pwyllgor gan aelodau'r Tîm Rheoli, yr Uwch Swyddog Cyllid ac Adnoddau (Rheolwr Risg), yr Archwilwyr Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru.
- 6.4 Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol 2014-15, yr archwilwyr mewnol, KTSowenstomas, gan y Pwyllgor Archwilio a Risg; lle derbyniwyd sicrwydd sylweddol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
- 6.5 Cwblhawyd archwiliad allanol ar gyfrifon y Comisiynydd a derbyniwyd tystysgrif gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn datgan barn ddiamod ar Gyfrifon Blynyddol 2014-15 Comisiynydd y Gymraeg. Nid oedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn codi unrhyw fater o bwys yn deillio o'r archwiliad.

Gweithredu Polisiau a Gweithdrefnau mewnol

- 6.6 Caiff systemau a gweithdrefnau'r sefydliad yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diwygio lle bo'n briodol, o ganlyniad i newidiadau mewnol, argymhellion yr archwilwyr mewnol neu broses o welliant parhaus.
- 6.7 Mae'r Comisiynydd yn gweithredu polisiau i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Derbynnir adroddiadau yn fisol gan y dalwyr cyllideb sy'n adolygu gwariant a'r rhagolwg ar gyfer gweddill y flwyddyn, i fonitro gwariant yn erbyn y targedau a deall unrhyw amrywiant yn y gwariant. Cyflwynir yr adroddiad cyllid yn fisol i'r Tîm Rheoli lle trafodir cynnydd ar dargedau a'r rhagolwg ariannol a chymeradwyr newidiadau i'r gyllideb.

Cydweithio gyda sefydliadau eraill

- 6.8 Cynhelir cyfarfodydd â rhanddeiliad, partneriaid a chyfoedion ar draws meysydd eang er mwyn rhannu profiadau, syniadau, gwybodaeth ac arfer da. Hefyd mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi fforwm i gydweithio ac i osgoi neu leihau dyblygu gwaith.
- 6.9 Yn benodol, yn ystod y flwyddyn flaenorol cafwyd cyfarfodydd Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hyn ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fesul un ac fel grŵp. Prif bynciau trafod y cyfarfodydd oedd sicrhau cydlyniant strategol ein gweithgareddau.

